| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23 Ionawr 2019 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Hugh Evans, Arweinydd/ Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, AD a Chyfreithiol |
| **Teitl:** | **Adolygiad Cyfansoddiad Blynyddol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Chyfansoddiad y Cyngor ac adolygiad o'i ddarpariaethau, yn benodol, defnyddio cydbwysedd gwleidyddol o ran cyfansoddiad y Cabinet.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

**2.1** Mae angen i'r Pwyllgor, fel rhan o'i gylch gorchwyl, fonitro ac adolygu Cyfansoddiad y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at y diweddariadau y mae angen eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor i gymryd i ystyriaeth benderfyniadau'r Cyngor a'r Cabinet ac unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu weithredol sydd wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf. Yn ogystal, pasiodd y Cyngor Gynnig ar 23 Hydref 2018 i ofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ystyried opsiynau a chyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 19 Chwefror, 2019 sy'n amlinellu sut y gellid newid y Cyfansoddiad i ddileu'r gofyniad am gydbwysedd gwleidyddol yn y Cabinet.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n ystyried cynnwys yr adroddiad hwn mewn perthynas â chydbwysedd gwleidyddol y Cabinet.

3.2 Bod yr Aelodau'n ystyried y newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad a nodir ym mharagraffau 4.13 a 4.14 yr adroddiad hwn a'u hargymell i'r Cyngor.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor weithredu trefniadau gweithrediaeth yn unol â Rhan II Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Deddf 2000). O dan y trefniadau hyn, rhaid i'r Cyngor fod â "Gweithrediaeth". Gall y Weithrediaeth gymryd un o ddwy ffurf:

4.2 Un opsiwn yw cael Maer a etholwyd yn uniongyrchol a all benodi rhwng dau a naw cynghorydd arall i lunio'r Weithrediaeth gyda'r Maer. Cyn y gall Cyngor gael Maer wedi'i ethol yn uniongyrchol, rhaid iddo gynnal refferendwm ynghylch p'un ai i weithredu'r model gweithrediaeth hwn ai peidio.

4.3 Yr ail opsiwn yw cael Gweithrediaeth sy'n cynnwys cynghorydd a etholir gan y Cyngor fel Arweinydd, ynghyd â rhwng dau a naw cynghorydd a all gael eu penodi naill ai gan yr Arweinydd, neu'r Cyngor. Yn Sir Ddinbych, gweithredir y model hwn o Weithrediaeth ac fe'i gelwir yn Gabinet. Yr Arweinydd sy’n penodi cynghorwyr i'r Cabinet.

4.4 Mae Deddf 2000 yn eithrio'r Cabinet yn benodol rhag bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd a gynhwysir yn adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Deddf 1989) i ddefnyddio’r rheolau cydbwysedd gwleidyddol i'w aelodaeth. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i'r Cabinet yn ôl y gyfraith fod â chydbwysedd gwleidyddol yn ei gyfansoddiad. Fodd bynnag, gall y Cyngor ddewis defnyddio rhyw fath o gydbwysedd gwleidyddol os yw'n dymuno.

4.5 Mae'r trefniadau presennol ar gyfer cyfansoddiad y Cabinet wedi'u cynnwys yn Adran 5 Cyfansoddiad y Cyngor fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Mae'r darpariaethau hyn yn ceisio defnyddio peth elfen o gydbwysedd gwleidyddol i'r Cabinet ond nid ydynt yn adlewyrchu'r ddyletswydd absoliwt a nodir yn Neddf 1989.

4.6 Y man cychwyn yn y Cyfansoddiad yw y dylai'r Cabinet fod â chydbwysedd gwleidyddol. Y bwriad y tu ôl i'r ddarpariaeth hon oedd y byddai yna Gabinet yn adlewyrchu gwneuthuriad gwleidyddol y Cyngor ac felly penderfyniad yr etholwyr. Bwriedir i hyn ddarparu ar gyfer sefydlogrwydd gwleidyddol.

4.7 Dim ond i grwpiau gwleidyddol sy'n cynnwys pump neu fwy o aelodau y mae egwyddorion cydbwysedd gwleidyddol yn cael eu cymhwyso. Yn ôl y gyfraith, gall grŵp gwleidyddol fodoli pan fo isafswm o ddau aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig eu bod yn grŵp gwleidyddol ac yn nodi un o'u niferoedd fel arweinydd grŵp. Y bwriad y tu ôl i'r ddarpariaeth hon oedd darparu ar gyfer sefydlogrwydd ac annog yn erbyn aelodau unigol yn rhannu grwpiau er mwyn cael seddi ar y Cabinet a chyrff eraill.

4.8 Mae'r model a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn darparu y gall yr Arweinydd benodi cynghorwyr i'r Cabinet yn amodol ar egwyddorion cydbwysedd gwleidyddol a amlinellir uchod yn dilyn ymgynghori ag Arweinwyr Grwpiau. Os bydd unrhyw grŵp gwleidyddol yn gwrthod cymryd eu seddi ar y Cabinet, gall yr Arweinydd lenwi'r swyddi gwag heb ystyried egwyddorion cydbwysedd gwleidyddol yn dilyn ymgynghoriadau pellach gyda'r Arweinydd Grwpiau eraill.

4.9 Os ar unrhyw adeg, mae grŵp gwleidyddol sydd wedi gwrthod seddau ar y Cabinet o'r blaen yn penderfynu cymryd y seddi hynny, rhaid i'r Arweinydd wneud newidiadau i aelodaeth y Cabinet er mwyn sicrhau y cydymffurfir â’r egwyddorion cydbwysedd gwleidyddol a nodir uchod.

4.10 Os yw'r Cyngor yn dymuno rhoi'r gorau i'r gofyniad i'r Cabinet fod â chydbwysedd gwleidyddol, yna mae yna ddau fodel posibl ar gael iddo. Y cyntaf yw bod yr Arweinydd, ar ôl ei ethol gan y Cyngor, yn rhydd i benodi cynghorwyr i'r Cabinet heb unrhyw gyfyngiad ffurfiol ynghylch cydbwysedd gwleidyddol. Gelwir hyn y model "arweinydd cryf". Gallai'r Arweinydd benodi cynghorwyr i'r Cabinet mewn modd gwleidyddol gytbwys petai ef / hi yn gweld hynny'n addas ond ni fyddai'n ofynnol iddyn nhw wneud hynny.

4.11 Yr ail opsiwn yw y gallai'r Cyngor ethol Arweinydd ac yna ethol aelodau'r Cabinet. Yna byddai'r Arweinydd yn neilltuo portffolios i'r aelodau hynny. Gall yr etholiad hwn fod ar gyfer tymor y Cyngor neu hyd at bob Cyfarfod Blynyddol. Gelwir hyn y model "arweinydd gwan".

4.12 Mae gwiriad byr ar gyfansoddiadau cyhoeddedig yr awdurdodau unedol yng Nghymru yn datgelu o’r ddau gyngor ar hugain, mae un ar bymtheg (gan gynnwys Sir Ddinbych) wedi mabwysiadu'r model "arweinydd cryf". Mae chwe Chyngor wedi mabwysiadu'r model "arweinydd gwan". Mae tabl sy'n nodi pa Gynghorau sydd â pha fath o'r Cabinet ynghlwm fel Atodiad 2.

4.13 Sir Ddinbych yw'r unig Gyngor sydd ag unrhyw ofyniad ffurfiol i ddefnyddio egwyddorion cydbwysedd gwleidyddol.

4.14 Bydd yr Aelodau'n cofio, yn ystod cyfarfodydd blaenorol, eu bod wedi trafod agweddau ar ddogfen Canllaw Ymarferol CIPFA ar gyfer Pwyllgorau Archwilio fel rhan o'r adroddiadau Diweddariad Archwilio Mewnol. Yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2018 hysbyswyd yr aelodau fod y Prif Archwilydd Mewnol wedi cymharu cylch gorchwyl cyfredol y Pwyllgor gyda'r canllaw. Mae copi o gylch gorchwyl diwygiedig drafft ynghlwm yn Atodiad 3 gyda'r newidiadau mewn coch. Un agwedd ar y cylch gorchwyl drafft y mae angen i'r Pwyllgor ei ystyried yw'r cyfeiriad at gwynion nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor ond y cânt eu hadrodd mewn gwirionedd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad.

4.15 Yn ychwanegol, yn unol â rhwymedigaethau'r Swyddogion Monitro i gadw'r Cyfansoddiad yn addas i’r pwrpas, ac yn unol â'r dirprwyaethau a wnaed i'r Swyddog Monitro i ddiweddaru'r Cyfansoddiad yn dilyn penderfyniadau aelodau neu ddyletswyddau neu bwerau deddfwriaethol newydd y dylai'r ddogfen adlewyrchu, mae'r newidiadau canlynol wedi'u gwneud a chant eu hysbysu i chi:

- Diweddarwyd y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion â deddfwriaeth nad oedd wedi'i chynnwys yn flaenorol;
- Diweddarwyd Cynllun Dirprwyo'r Cabinet yn dilyn newidiadau i bortffolios
- Yn dilyn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Safonau, diwygiwyd y weithdrefn ar gyfer ymdrin â gwrandawiadau ymddygiad.
- Diweddarwyd aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio i adlewyrchu'r nifer newydd o aelodau.
- Diweddarwyd cynllun dirprwyo’r Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd er mwyn gweithredu a gweithio’r Corff Draenio Cynaliadwy (SuDS) a'r grym i bennu lefel hysbysiadau cosb benodedig yn unol â'r amrediad a osodwyd yn gyfreithiol gan Lywodraeth Cymru.

Mae dyfyniadau o’r rhannau hynny o'r Cyfansoddiad sydd wedi'u diwygio ynghlwm fel Atodiad 4.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cyfansoddiad modern addas i'r pwrpas sy'n rhoi sicrwydd ar lywodraethu a gwneud penderfyniadau, ymddygiad moesegol, a chaniatáu i'r cyhoedd a thrydydd partïon weld pwy yw'r gwneuthurwr penderfyniadau cyfrifol ar faterion sy'n effeithio arnynt yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol.

**6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes gofyniad am asesiad mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**

Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi'i gynnal mewn perthynas â'r adroddiad hwn. Gofynnir am farn y Pwyllgor cyn adrodd yn ôl i'r Cyngor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

**Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn codi o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag mae'n bwysig bod gan y Cyngor Gyfansoddiad diweddar ac addas i'r diben sydd yn ffurfio elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor.**

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae risg, heb adolygiad rheolaidd, bydd y Cyfansoddiad yn dod yn hen ffasiwn a ddim yn addas i'r pwrpas.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 13 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rhan II Deddf Llywodraeth Leol 2000